



DATGANIAD YSGRIFENEDIG

GAN

LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol)
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) (2020)

DYDDIAD 14 Awst 2020

GAN Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi gwneud darpariaeth i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig o wledydd tramor yn gorfod hunanynysu am 14 diwrnod, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ddydd Llun 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i ynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i ynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth teithwyr.

Ers hynny, mae'r rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. O ran y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio o'r gofynion cwarantîn:

- ar 11 Gorffennaf, tynnwyd Serbia o'r rhestr;
- ar 26 Gorffennaf, tynnwyd Sbaen a'i hynysodd o'r rhestr;
- ar 30 Gorffennaf, ychwanegwyd Latfia, Estonia, Slofacia, Slofenia a Saint Vincent a'r Grenadines;
- Ar 8 Awst, tynnwyd Andorra, y Bahamas a Gwlad Belg o'r rhestr ac ychwanegwyd Brunei a Malaysia.

Ddoe, mynychais gyfarfod o Weinidogion o bob un o bedair gwlad y DU i ystyried y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil y nifer cynyddol o achosion o COVID-19 yn Aruba, Ffrainc, Malta, Monaco, yr Iseldiroedd a Turks a Caicos.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth ynglŷn â'r risg i iechyd y cyhoedd erbyn hyn wrth i deithwyr ddod i'r DU o'r lleoedd hyn, bydd Llywodraeth Cymru, yn ddiweddarach heddiw, yn

tynnu Aruba, Ffrainc, Malta, Monaco, yr Iseldiroedd a Turks a Caicos oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio o'n mesurau iechyd ar y ffin.

Bydd diwygiadau brys yn cael eu cyflwyno i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 a fydd yn dod i rym am 04:00 o'r gloch ddydd Sadwrn 15 Awst. Bydd y diwygiadau hyn yn golygu y bydd yn ofynnol i unrhyw un sy'n cyrraedd Cymru o Aruba, Ffrainc, Malta, Monaco, yr Iseldiroedd a Turks a Caicos, neu sydd wedi bod yn unrhyw un o'r gwledydd neu'r tiriogaethau hynny yn ystod y 14 diwrnod diwethaf, ynysu am 14 diwrnod, o 04:00 o'r gloch yfory.

Pan gaiff y Rheoliadau eu gosod bydd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn ysgrifennu at y Llywydd, yn unol â gofynion Deddf Offerynnau Statudol 1946 a'n trefn arferol.

Caiff y datganiad hwn ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Os bydd yr Aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.